Department for Environment Food & Rural Affairs | Environment Agency | Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales | Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Llawlyfr Rheoli Llifogydd yn Naturiol

# Rhaglen Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad: Gorffennaf 2023

Prosiect: FRS18203

Mae'r Llawlyfr Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn darparu gwybodaeth i helpu ymarferwyr i ddewis a gweithredu mesurau i reoli llifogydd yn naturiol.

**Dogfen**

Cyhoeddwyd y llawlyfr rheoli llifogydd yn naturiol gan Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA) ym mis Mai 2022. Gellir ei lawrlwytho am ddim o dudalen cynnyrch CIRIA C802F (mae angen tanysgrifio). Unwaith y bydd eich cais wedi cael ei brosesu, byddwch yn gallu lawrlwytho:

- y llawlyfr llawn
- rhan A o'r llawlyfr - trosolwg 23 tudalen o reoli llifogydd yn naturiol
- graffigau ar wahân sy'n dangos:
    - rheoli dŵr ffo
    - storio dŵr ffo
    - rhwystrau sy'n gollwng
    - ailgysylltu gorlifdir

**Crynodeb**

Mae Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn helpu i reoli perygl llifogydd drwy ddiogelu, adfer ac efelychu prosesau naturiol. Mae’r Llawlyfr Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn dwyn ynghyd dystiolaeth ac astudiaethau achos o brosiectau sy’n rheoli llifogydd yn naturiol. Mae'n darparu canllaw cam wrth gam ar gyfer mesurau rheoli llifogydd yn naturiol, o'u nodi hyd at eu gweithredu. Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer y rhai sy'n cynnal prosiectau rheoli llifogydd yn naturiol yn eu dalgylch lleol.

**Cefndir**

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Cyfeiriadur Tystiolaeth Gweithio gyda Phrosesau Naturiol, a oedd yn amlinellu effeithlonrwydd gwahanol fesurau ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol.

**Dull Gweithredu**

Cafodd y prosiect ei ddatblygu a'i gyd-ariannu gan lawer o'r sefydliadau sy'n rheoli llifogydd yn naturiol. Fe'i cyhoeddir gan CIRIA (Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu).

**Y llawlyfr**

Mae adran gyntaf y Llawlyfr yn ganllaw cryno, sy'n cynnwys trosolwg o reoli llifogydd yn naturiol a rhestr wirio lefel uchel o gamau gweithredu (dyma’r detholiad). Mae'r crynodeb yn cyfeirio'r darllenydd at adrannau diweddarach i gael gwybodaeth fanylach. Mae'r llawlyfr ar gael i'w lawrlwytho fel adroddiad llawn neu ddetholiad o'r adran gyntaf.

Ystyrir pedwar mesur yn fanwl (mae'r rhain hefyd ar gael i'w lawrlwytho fel PDFs A3 ar wahân):

DRAFT - Not For Circulation

- rheoli dŵr ffo
- storio dŵr ffo
- rhwystrau sy'n gollwng
- ailgysylltu gorlifdir

Darperir gwybodaeth gryno ar gyfer wyth mesur arall:

- rheoli mawn ar yr ucheldir
- rheoli pridd a thir
- coetir ar draws llethrau
- coetir ar lannau afon
- coetir ar orlifdir
- coetir y dalgylch
- ardaloedd storio all-lein
- adfer afonydd a sianeli

**Adroddiad:** FRS18203

**Teitl:** Y Llawlyfr Rheoli Llifogydd yn Naturiol

**Gorffennaf 2023**

**Swyddog Gweithredol y Prosiect:** Phil Foxley, Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

**Rheolwr y Prosiect:** Jessica Durkota, Grŵp y Prif Wyddonydd

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Cyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk .

© Asiantaeth yr Amgylchedd

DRAFT - Not For Circulation